# Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

**Atodiad A5**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod o:** | Banel Adolygu Dalgylch Y Berwyn | **Dyddiad:** | 23 Mawrth 2010 |

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); Hefin Owen (HO); Sian Gwenllian (SG); J Blake (John Blake); Gareth Williams (GW) Gwilym Hughes (GH); Carole Burgess (CB); Nia Wyn Morris (NWM); Dewi Davies (DD); Llinos Clwyd Owen (LICO); Alyson Evans (AE); Rhiannon Dafydd (RhD); Sharon Jones (ShJ); Bethan Emyr Jones (BEJ); W. Ann Jones (WAJ); Edwina Owen (EO); Rhian Llwyd Dafydd (RhLD); Llyr Edwards (LIE); Dylan Davies (DD); Dorothy Ann Jones (DAJ); Shan Mererid Edwards (ShME); Brian Llwyd (BLI); Dilys Ellis-Jones (DEJ); Gareth Llewelyn (DLI); Jano Owen (JO); Aeron Prysor Jones (APJ); Nia Roberts (NR); Elwyn Edwards (EE); Dylan Edwards (DE); Alan Evans (AE); Cefyn Williams (CW); Glenys Edwards (GE) |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | Siwan Haf Davies (SHD); Rosalind Williams (RW).Gwion Lynch(GL); Ann E Jones (AEJ); William Edwards (WE) Sion Llewelyn (SLI); Teleri Llwyd Roberts (TLIR); |

**Crynodeb gweithredol**
***(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)***

| Rhif Eitem | Eitem/ Pwnc | Gweithrediad | Gan | Erbyn |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

**Cofnod Llawn**

| Rhif Eitem | Eitem / Pwnc | Gweithrediad | Gan | Erbyn |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan DRJ a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sion Llywelyn; Teleri Roberts a Wil Edwards. Nododd LSR ein bod wedi cyrraedd cyfarfod olaf ble mae'r sir yn casglu barn y dalgylch. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Eglurwyd y byddem yn derbyn cyflwyniad gan Dylan Bryn ar yr asesiad ar effaith ieithyddol a chymunedol a hefyd adborth gan John Blake o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol. Hwn felly yw'r cyfle olaf yn ymarferol i ddatgan barn am beth hoffai'r PAD ei weld yn digwydd yn nalgylch Y Berwyn. Bydd LSR yn trafod gyda chynghorwyr eraill yn y PYS nos yfory cyn iddi ddod yn ôl i'r cyfarfod yr wythnos nesaf gyda'i hargymhellion. Bydd yr argymhellion wedyn yn mynd ymlaen i'r broses ddemocratiaeth.<br><br>Y PAD fydd y cyntaf i glywed argymhellion LSR wythnos nesaf. | | |
| **2.** | **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf** | Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf i gadarnhau'r cofnodion yn y PAD cyn eu cyhoeddi.<br><br>Aeth DRJ dros y cofnodion fesul pwynt. Ni dderbyniwyd sylwadau. Cynigwyd ac eiliwyd eu bod yn gofnod cywir.<br><br>Gwnaethpwyd yr un peth gyda Newyddlen 3 ac fe'u cynigwyd a'u heiliwyd yn gywir. | | |
| **3.** | **Asesiad o effaith ieithyddol a chymunedol.** | Cyflwynwyd Dylan Bryn i adrodd yn ôl ar yr Asesiad o Effaith Ieithyddol a Chymunedol. Cychwynnodd drwy egluro ei fod yn rhoi barn broffesiynol ac mai dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor glywed y cyflwyniad hefyd.<br><br><u>Asesiad Ieithyddol</u><br><br>Eglurodd Dylan y fethodoleg a sut yr aethpwyd ati i ymgymryd â'r gwaith ac eglurodd ei fod wedi edrych yn wrthrychol ar y sefyllfa a'r modelau. Nodwyd fod lefel y Gymraeg yn uwch yng nghefn gwlad dalgylch y Bala a bod y sefydliadau yn naturiol Gymraeg. Yn gyffredinol yn y dalgylch mae lefelau Cymraeg gyda chyrhaeddiad dda a bod disgyblion ail-iaith yn symud ymlaen i siarad Cymraeg gyda'u plant. Eglurwyd yr effaith all y modelau gael ar yr iaith Gymraeg yn dilyn unrhyw newidiadau, boed hynny yn ddigyfnewid, negyddol neu'n gadarnhaol.<br><br>Nododd LSR nad oedd am i Gymraeg unrhyw blentyn ddioddef yng Ngwynedd pa bynnag newid fydd yn digwydd i drefniadaeth ysgolion y sir. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ardrawiad Cymunedol<br><br>Eto eglurodd Dylan y fethodoleg a'r broses a gymerwyd i ymgymryd â'r asesiad. Cafwyd 89 ymateb i'r holiaduron o'r dalgylch.<br><br>Nodwyd bod ysgolion yn cydweithio'n glos yn y dalgylch a bod bwrlwm o weithgareddau cymunedol a chyfleusterau amrywiol yn nalgylch Y Bala. | | |
| **4.** | **Adborth o'r cyfarfodydd staff, llywodraethwyr a rhieni** | Yn dilyn yr ymweliadau ysgolion cyflwynodd John Blake y sylwadau a ganlyn ar ran y tîm swyddogion. Eglurodd fod yr ymweliadau wedi golygu cyfarfodydd gyda staff, rhieni a llywodraethwyr pob ysgol. Cynhaliwyd tri chyfarfod ymhob ysgol. Roedd pob cyfarfod yn cymryd tuag awr o amser. Cafwyd ymateb da ymhobman a nodwedd amlwg ar draws ysgolion y dalgylch oedd y diddordeb a'r ymwybyddiaeth uchel oedd o'r datblygiadau. Diolchodd i bawb am y croeso a gafwyd ac am ansawdd a safon uchel y drafodaeth. Penderfynodd adrodd yn ôl ar sylwadau ac argraffiadau cyffredinol a gwahodd cynrychiolwyr yr ysgolion i ymhelaethu ac ychwanegu sylwadau penodol fel oedd angen.<br><br>Ymhlith y sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd nodwyd:<br><br>▪ fod ansawdd safonau addysgol yr holl ysgolion cynradd yn nodwedd roedd pawb yn ei werthfawrogi<br>▪ yr angen i warchod diwylliant a thraddodiadau cefn gwlad yn enwedig yr eisteddfodau a'r cyfarfodydd bach<br>▪ fod sawl sylw yn cael ei dderbyn nad oedd yn hawdd llesio barn ar ddyfodol ysgolion eraill<br>▪ sylw am yr amser teithio i blant i ysgol fod yn rhesymol a bod 30 munud strategaeth Gwynedd yn well na'r 45 munud a nodir yn genedlaethol<br>▪ yr angen i warchod clybiau ôl-ysgol<br>▪ yr angen i gryfhau'r ddarpariaeth addysg feithrin mewn rhai ardaloedd<br>▪ y dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau fod adeilad ysgol fyddai'n cau i barhau'n adnodd cymunedol ar gyfer gweithgareddau min nos<br>▪ fod enghreifftiau gwych o ysgolion ardal | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | eisoes o fewn y dalgylch a bod rhai cymunedau wedi colli eu hysgolion yn y 70au<br>▪ bod angen mwy o eglurhad am y syniad "cydweithio" oherwydd roedd pob ysgol yn gweld ei dyfodol mewn cynllun o'r fath ac yn awyddus i barhau'r cydweithio anffurfiol oedd eisoes yn weithredol mewn rhai ysgolion<br>▪ nad oedd yr un ysgol wledig yn barod i weld eu hysgol hwy yn cau<br>▪ fod ysgolion tref y Bala yn gyffredinol yn gweld cau eu hysgol yn gyfle er lles eu disgyblion<br><br>Cafwyd trafodaeth ar bob opsiwn a gofynnwyd am adborth ar opsiynau 6 a 7.<br><br>**Sylwadau Opsiwn 6 – Un ysgol gynradd i'r dalgylch**<br>▪ ychydig o gefnogaeth ar y cyfan<br>▪ ddim yn opsiwn trafod mewn rhai ysgolion<br>▪ teimlad y byddai'n andwyol i'r Gymraeg<br>▪ byddai'n cael effaith andwyol ar ddiwylliant cefn gwlad<br>▪ nifer yn bryderus y byddai bywyd cymunedol yn dioddef<br>▪ nifer yn gefnogol dros ysgol ardal i'r Bala ond yn amheus a byddai uno dwy ysgol yn unig yn dderbyniol gan y Cynulliad i ryddhau cyllid adeiladu ysgol newydd<br>▪ yr ysgolion gwledig ddim yn gweld datblygiad ysgol newydd yn y Bala yn debygol o ddenu plant o'u dalgylchoedd hwy<br><br>**Sylwadau Opsiwn 7 – Ysgol Gydol Oes**<br>▪ y pwyntiau uchod eto<br>▪ cefnogaeth ymhlith tair ysgol tref y Bala'n unig<br>▪ ysgolion tref y Bala yn gweld posibilrwydd cynhyrfus pe bai modd cael cefnogaeth y dref i ddatblygu adnodd newydd fyddai er lles plant a'r gymuned yn lleol<br>▪ teimlad nad oes cydweithio na chyswllt digon agos ar hyn o bryd rhwng yr ysgolion cynradd a'r uwchradd i hybu'r weledigaeth<br>▪ amgyffred fod elfen Seisnig ymhlith plant y dref yn golygu fod y plant o natur wahanol<br>▪ amheuaeth cyffredinol am rinweddau ysgol gydol oes oherwydd diffyg tystiolaeth llwyddiant<br>▪ rhai ysgolion yn barod i ystyried yr opsiwn o | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgol gymunedol gydol oes mewn adeilad newydd pwrpasol<br><br>**Materion eraill y gofynnwyd iddynt gael eu rhannu hefo Cyngor Gwynedd:**<br>▪ Pryder nad oes gan Wynedd bolisi tebyg i Geredigion sy'n gofyn am adolygiad cau pan fo nifer y disgyblion yn 20 neu lai<br>▪ Gwynedd yn amharod i ddweud pan fo angen cau ysgol yn arwydd o wendid<br>▪ Effaith adrefnu ar swyddi angen mwy o fanylion<br>▪ Rhieni'n barod iawn i ofyn am gyngor gan swyddogion yn nodwedd o'r ymgynghori<br>▪ Cais am fanylion arbedion ariannol yn gynharach yn y broses<br>▪ Amgyffred fod trethi'n uchel a bod gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig eisoes yn brin ac mae angen sicrhau darpariaeth addysgol o ansawdd<br><br>Cais am fanylion arbedion | | |
| **5.** | **Modelau** | Eglurwyd fod yr arbediad o unrhyw fodel wedi eu hamlinellu o dan y modelau ar yr ail a'r drydedd dudalen o'r papur modelau ac eglurwyd nad oedd amlinelliad ar yr egwyddor o ysgol gydol oes oherwydd ei bod yn dibynnu ar y model terfynol. Nodwyd bod y Cynulliad wedi dod â phatrwm pendant o ffederaleiddio allan sydd i'w gadarnhau oddi fewn y 3 wythnos nesaf. Mae cyfle hyd at hynny i roi sylwadau. Nodwyd bod elfennau o'r patrwm a all weithio ac sydd yn fwy apelgar gan yr ysgolion. Eglurwyd fod nifer o ddiffiniadau gwahanol o gydweithio oddi fewn i'r patrwm a'i fod yn caniatáu pob math o gydweithio cyn belled a bod awydd yn yr ysgolion.<br><br>Nodwyd na fyddai cau ysgolion yn rhoi'r cyfle iddynt gydweithio. | | |
| **6.** | **Unrhyw Fater Arall** | Gofynnwyd a fu cysylltiad ag ysgol Llangwm ac ysgolion eraill mewn siroedd eraill? Eglurwyd fod gwahoddiad wedi ei roi i'r ysgolion a'u bod wedi derbyn y papurau ar gyfer y cyfarfod heno. Un ysgol oedd wedi derbyn y gwahoddiad, a chroesawyd Glenys Edwards i'r cyfarfod. | | |
| **7.** | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf** | 18:30 ar 30 Mawrth 2010 - Ysgol y Berwyn Cyn cloi | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gofynnodd LSR am sylwadau ar y broses sydd wedi digwydd er mwyn cyrraedd y cyfarfod nesaf gydag argymhellion. Gofynnwyd barn y panel am hyd y broses a nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma.<br><br>Nodwyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol petai gwell diffiniad o gydweithio wedi ei gyfleu.<br><br>Gorffennwyd y cyfarfod drwy i LSR wahodd sylwadau drwy e-bost gan unrhyw un oedd yn teimlo eu bod eisiau gwneud hynny cyn nos Fawrth nesaf. | | |